# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

*Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: y prif ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru*

### 29 Targed allyriadau 2050

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf **[**[F1]100%**]** yn is na'r waelodlin.

(2) Gweler adran 33 am ystyr "cyfrif allyriadau net Cymru", a gweler adran 38 am ystyr y "waelodlin".

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1) fel ei bod yn pennu canran sy'n fwy nag 80%.

(4) Yn y Rhan hon, cyfeirir at y targed yn is-adran (1) fel "targed allyriadau 2050".

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn a. 29(1) wedi ei amnewid (19.3.2021) gan Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 (O.S. 2021/333), rhlau. 1(2), **2**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 29 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(a)
- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(b)